



HERIAU CYFOES

Gwneud Gwahaniaeth



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CYFLWYNIAD MODIWL

Cynnwys

2. Trosolwg o'r Modiwl
4. Strwythur y Modiwl
7. Asesu
8. Llywio drwy'r Modiwl

Trosolwg o'r Modiwl

Prif nod y modiwl hwn yw meithrin ymdeimlad o berthyn i ddynoliaeth gyffredin a'ch helpu i ddod yn ddinesydd byd-eang cyfrifol a gweithredol.

Nod y dysgu sy'n seiliedig ar waith prosiect yw eich grymuso i ymgymryd â rôl weithredol i wynebu a datrys heriau byd-eang a dod yn gyfrannwr gweithredol i fyd mwy heddychlon, goddefgar, cynhwysol a diogel.

Drwy gydol y modiwl byddwch yn datblygu galluoedd craidd fydd yn gadael i chi ymgysylltu'n weithredol gyda'r byd a helpu i'w wneud yn lle mwy cyfiawn a chynaliadwy. Byddwch yn gyfranogwr gweithredol mewn prosiectau sy'n ymdrin â materion byd-eang o natur gymdeithasol, wleidyddol, economaidd neu amgylcheddol drwy ddull amlddisgyblaethol.

Mae dysgu **amlddisgyblaethol** yn ddull 'cyflawn' neu 'gynhwysfawr' sy'n cwmpasu syniad, pwnc neu destun drwy

gyfuno parthau gwybodaeth niferus. Mae'n ddull pwerus iawn o ddysgu sy'n croesi ffiniau disgyblaeth er mwyn cyfoethogi cwrmpas a dyfnder y dysgu.

Gall myfyrwyr **amlddisgyblaethol** fod yn amlwg i gyflogwyr oherwydd y bydolwg cyfoethog maen nhw'n ei ddatblygu. Gallai'r amrywiaeth eang o safbwyntiau y byddwch wedi dod ar eu traws yn ystod eich astudiaethau, a'r cyfuniad o feysydd pwnc y byddwch wedi'u hastudio, gynnig dewisiadau gyrfa mwy hyblyg.

Yn wir, mewn llawer o'r swyddi sydd ar gael, does dim sôn am yr wybodaeth pwnc-benodol sydd ei hangen ar gyfer y rôl; y sgiliau y byddwch wedi'u datblygu yn ystod eich astudiaethau yn ogystal â'ch profiadau bywyd eraill yw'r hyn sydd gan gyflogwyr ddiddordeb ynddo. Felly mae astudio mwy nag un pwnc yn eich helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy pwysig, sy'n datblygu'n barhaus ar bob cam yn eich bywyd.

Rhai enghreifftiau o'r sgiliau trosglwyddadwy y byddwch yn datblygu ar y modiwl hwn:

Meddwl yn Feirniadol	Defnyddir a datblygir sgiliau meddwl beirniadol wrth i chi edrych ar draws ffiniau disgyblaethol i ystyried safbwyntiau eraill a hefyd ddechrau cymharu a chyferbynnu cysyniadau ar draws meysydd pwnc.
Ystwythder	Gall fod angen edrych ar wahanol bynciau drwy wahanol lensys, sy'n golygu y byddwch yn datblygu'r sgil i allu newid i'r lens priodol ar yr adeg briodol ar gyfer pa bynnag bwnc mae'n edrych arno. Mae angen rheoli eich hun yn ofalus i allu gwneud hyn.
Dadansoddi a Datrys Problemau	Drwy astudio ar draws gwahanol ffiniau pwnc ac astudio amrywiaeth ehangach o bynciau, byddwch yn datblygu sgiliau gwerthuso cryfach wrth i chi ddysgu nifer o ymagweddau rhesymegol a methodolegol gwahanol ac yn gallu dewis yr un gorau mewn amgylchiadau penodol. Er enghraifft, gallwch dynnu ar eich ystod o wybodaeth academiaidd neu bwnc i ganfod datrysiadau o natur ymarferol neu dechnegol.
Cyfathrebu a Llythrennedd	Caiff eich sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar eu datblygu ar draws gwahanol ddulliau wrth i chi ddysgu'r arddull cyfathrebu briodol mewn maes pwnc penodol. Er enghraifft, gallech ddod ar draws amrywiaeth o ddulliau asesu gwahanol, yn cynnwys traethodau, adroddiadau, blogiau, vlogiau ac arholiadau, fel bo'n briodol i'r gwahanol feysydd pwnc.
Cymhwyso Technoleg Gwybodaeth	Mae defnyddio technoleg ar draws amrywiol bynciau'n golygu eich bod yn dod i arfer ag arddangos a chyflwyno gwybodaeth mewn amrywiol ffyrdd.
Hyblygrwydd	Mae'r gallu i addasu i wahanol gyd-destunau ac amgylcheddau'n sgil cryf a geir drwy astudio pynciau niferus gan y byddwch yn cyfnewid o un pwnc i'r llall.
Cyfuno Syniadau	Byddwch yn dechrau cyfnerthu'r dysgu drwy gyfuno syniadau o lawer o safbwyntiau ac yn ystyried dulliau amgen o gaffael gwybodaeth.

Strwythur y Modiwl

Mae'r modiwl yn cynnwys 4 uned gyda phob un yn 10 awr o ddysgu ar-lein, a gaiff ei ategu gydag o ddeutu 8 awr o sesiynau darlith/tiwtorial rhithwir.

Y pedair uned yw:

Uned 1. Gweledigaethau'r Dyfodol

Uned 2. Mae'r Dyfodol yn Ddynol

Uned 3. Newid drwy Gynllunio

Uned 4. Her Datrys Problem

Mae'r modiwl yn cynnwys dysgu'n seiliedig ar brosiect a bydd disgwyl i chi ymgymryd â gwaith grŵp i fodloni deilliannau dysgu'r modiwl.

Uned 1 Gweledigaethau'r Dyfodol

Mae'r uned hon yn cyflwyno rhai o'r heriau cyfoes sy'n effeithio ar bob dinesydd drwy'r byd ac a fydd ag effaith pellgyrhaeddol ar ddyfodol y ddynoliaeth.



Pwnc 1:

'An Inconvenient Truth'

Newid yn yr hinsawdd a difodiant.

Pwnc 2:

'Blindspotting'

Anghydraddoldeb a sut mae hanes wedi ffurfio ein golwg ar y byd.

Pwnc 3:

Iechyd, Cyfoeth a Hapusrwydd

Lles corfforol a meddyliol, yn cynnwys effaith technoleg ar ymddygiad eisteddog a hunan-ddelwedd.

Pwnc 4:

'The Rise of the Machines'

Dyfodol byd gwaith a goblygiadau cymdeithasol, yn cynnwys aildodosbarthu cyfoeth.

Uned 2

Mae'r Dyfodol yn Ddynol

Yn yr uned hon byddwch yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau dynol unigryw fydd yn gadael i chi barhau'n berthnasol yn y dyfodol yn y byd gwaith, yn wyneb awtomeiddio cynyddol.



Uned 3

Newid drwy Gynllunio

Yma cewch eich cyflwyno i gysyniad Ystyried Cynllunio a'i gymhwyso wrth ddatrys pob math o broblem.

Proses yw Ystyried Cynllunio a ddefnyddir ar gyfer datrys problemau'n greadigol mewn unrhyw ddisgyblaeth.



Pwnc 1:

Byrstio'r Swigen

Meddwl yn feirniadol, yn cynnwys cysyniadau'r siambr adleisio a thuedd unigol.

Pwnc 2:

Cyrraedd Cytundeb

Negodi a dylanwadu.

Pwnc 3:

Pam ydym ni'n gweiddi?

Rheoli gwrthdaro'n effeithiol.

Pwnc 4:

Y Bilsen Goch neu'r Bilsen Las?

Gwneud penderfyniadau effeithiol mewn sefyllfaoedd cymhleth.

Pwnc 1:

Cyflwyno Ystyried Cynllunio

Beth yw hyn a sut gall helpu i gynhyrchu datrysiadau i broblemau cymhleth.

Pwnc 2:

Ymchwilio Problem

Camau cyntaf y broses, dangos empathi a diffinio.

Pwnc 3:

Cynhyrchu Datrysiadau i'r Problem

Cael syniadau, prototeipio a phrofi'r broses.

Pwnc 4:

Datrys Problemau Cymhwysol


Gêm efelychu datrys problemau lle cewch ymarfer defnyddio ystyried cynllunio.

Uned 4

Her Datrys Problem

Ar draws y modiwl bydd gofyn i chi ystyried sut y gallwch wneud newidiadau fydd yn cyfrannu datrysiadau i'r heriau cyfoes sy'n wynebu'r ddynoliaeth, hyd yn oed os mai dim ond mewn modd bach iawn mae hyn.

Penllanw'r modiwl yw her datrys problem, lle byddwch yn gweithio mewn tîm i feddwl am ddatrysiad cysyniadol i un o'r heriau hyn drwy ddefnyddio'r broses ystyried cynllunio a'r sgiliau rydych chi wedi'u datblygu yn ystod y modiwl.



Asesiadau Modiwl

Caiff y modiwl ei asesu mewn dwy elfen:

Asesiad 1.

Dull Asesu	Maint	Pwysoli
E-Bortffolio	Cyfateb i 2,000 o eiriau	50%

Asesiad 2.

Dull Asesu	Maint	Pwysoli
Cyflwyniad Grŵp gyda deunydd ategol	Pob unigolyn yn y grŵp i gyfrannu 2 funud i'r cyflwyniad a phob un i gyfrannu 1,000 gair i'r deunyddiau ategol (uchafswm o 6 mewn grŵp).	50%

Ceir rhagor o fanylion am yr asesiad yn llawlyfr y modiwl.

Llywio drwy'r Modiwl

Ar dudalen y Modiwl, byddwch yn gweld sawl teilsen sy'n cynnwys adnoddau i gefnogi eich dysgu ar y modiwl.

Wrth i chi weithio drwy'r modiwl, dylech gadw llygad am yr eiconau canlynol:



Bydd clicio ar yr eicon hwn yn datgelu gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol sy'n berthnasol i gynnwys y sleid.



Mae'r eicon hwn yn nodi brasamcan yr amser y dylai ei gymryd y gwblhau sesiwn neu weithgaredd.



Mae'r eicon hwn yn agor dolen i adnodd allanol mewn ffenestr porwr newydd.



Pan fyddwch chi'n gweld yr eicon hwn, mae'n **RHAID** cwblhau'r gweithgaredd a nodir er mwyn cwblhau'r pwnc ac ennill credydau modiwl.



Mae'r eicon hwn yn nodi y dylech chi gymryd nodiadau gan ddefnyddio eich dull dewisol neu yn ôl y cyfarwyddyd yn nisgrifiad y gweithgaredd.



Pan fyddwch chi'n gweld yr eicon Symud Ymlaen, cewch eich cyfeirio at ddeunyddiau ychwanegol neu weithgareddau ymestyn sy'n berthnasol i bynciau'r modiwl.

Bydd cwblhau gweithgareddau yn ennill marciau i chi tuag at elfen cymryd rhan yr asesiad.

Gallwch wirio'ch cynnydd drwy'r bar cwblhau ar deilsen y modiwl a thrwy chwilio am y tic gwyrdd wrth ymyl y gweithgaredd Moodle.



Mae'r eicon hwn yn nodi eich bod wedi cwblhau gweithgaredd y gofynnwyd i chi ei wneud. Bydd cwblhau gweithgareddau penodol yn ennill bathodynau i chi wrth i chi symud drwy'r modiwl. Casglwch yr holl fathodynau i gael marciau llawn ar gyfer elfen cymryd rhan yr asesiad.

Ceir 19 o fathodynnau i'w casglu yn gysylltiedig â chwblhau gweithgareddau penodol.

Dyma rai enghreifftiau o'r bathodynnau y gallwch eu casglu:



Rhoddir y bathodyn trafod am gymryd rhan yn nhrafodaethau fforwm y grŵp. I ennill y bathodyn hwn, rhaid i chi gymryd rhan mewn trafodaethau a gwneud sylwadau ar gyfraniadau pobl eraill.



Rhoddir y bathodyn blog am gwblhau gweithgareddau blogio.



Rhoddir y bathodyn cyfranogiad am lefel eich cyfranogiad yng nghynnwys y modiwl. I ennill y bathodyn, rhaid i chi weithio drwy'r deunydd dysgu ar y dudalen Moodle.



Dyfernir Bathodyn y Dinesydd Byd-eang am gwblhau'r dysgu yn Uned 1. Mae 3 bathodyn uned arall i'w casglu a 2 fathodyn diwedd modwl.'

Bydd casglu'r 19 bathodyn yn golygu y cewch farciau llawn am elfen cyfranogi'r asesiad. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n llwyddo i gasglu'r bathodynnau, byddwch yn dal i gael rhai marciau'n seiliedig ar eich lefel o gyfraniadau i weithgareddau'r modiwl.

Gallwch ddod o hyd i bopeth sydd ei angen arnoch ar dudalen Moodle y modiwl, lle byddwch chi hefyd yn gweld fforwm holi ac ateb i godi unrhyw bryderon a allai fod gennych wrth weithio drwy'r deunyddiau.

Rydych chi bellach yn barod i ddechrau dysgu.

Pob lwc!



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David
